**Fforwm Gweithredu Bioamrywiaeth Mamaliaid Cymru**
**Cofnodion y 4ydd Cyfarfod**

17 Chwefror 2011, Swyddfa CCGC, Aberystwyth

**1. Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau**
**Yn bresennol**: Liz Halliwell (CCGC) Cofnodion, Rob Strachan (AyrA), Matthew Ellis (CCGC), Jean Matthews (CCGC) Cadeirydd, Kate Williamson (APCE), Henry Schofield (VWT), Tracey Lovering (PBC, rhan o'r cyfarfod)

**Ymddiheuriadau**: Rob Parry (WTSWW), Steve Lucas (YCY), Iolo Lloyd (CCC), Nida Al-Fulaij (PTES), Mike Jenkins (AyrA), Sarah Bird (Sw Caer), Ian Danby (BASC), Isabel Macho (Cyngor Sir Gâr), Lizzie Wilberforce (WTSWW), Brenda Mayle (Forest Research)

Nodwyd bod y presenoldeb yn isel. Trafodwyd y rhesymau dros hyn ac roeddent yn cynnwys salwch a newidiadau i argaeledd ar y funud olaf. Awgrymwyd y gellid gwneud cyfarfodydd o bryd i'w gilydd tros gynhadledd fideo neu gyswllt ffôn (e.e. tros Powwownow) i annog pobl i gymryd rhan mewn cyfarfodydd.

Diweddariadau sefydliadol:
Mae Kate Williamson yn gadael APCE, ond bydd yn parhau i gynrychioli APCE ar y prosiect Interreg mamaliaid trwy Fforwm Bywyd Gwyllt y Parc. Mae Kate yn gobeithio medru mynychu rhai cyfarfodydd FfGBMC o hyd i gynrychioli'r Gymdeithas Famaliaid.

Bydd holl Ariannu Bioamrywiaeth AyrAC yn y dyfodol yn cael eu cyfeirio at gronfa ddata camau Gweithredu canlyniad 21 (Adfer safleoedd a ddiogelir i statws cadwraeth ffafriol) a chamau gweithredu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar gyfer statws ecolegol da basnau afonydd. Ni fydd unrhyw brosiectau CGB unigol yn cael eu hariannu. Mynegodd y grŵp bryderon ynghylch gallu AyrAC i gyflwyno camau gweithredu CGB y maent yn gyfrifol amdanynt (AyrAC yw'r partner arweiniol ar gyfer dyfrgwn a llygod y dŵr yn ogystal â llawer o rywogaethau eraill). Cytunwyd y dylai hyn fod yn un o'r tair neges allweddol i adrodd amdanynt o'r cyfarfod hwn (gweler isod).

Gall fod pryderon tebyg o fewn CCGC ynghylch blaenoriaethu Canlyniad 21 dros waith bioamrywiaeth ehangach.

VWT – yn datblygu strategaeth gadwraeth sefydliadol yn amlinellu gwaith mewnol ac allanol. Dim ond gwaith cyfyngedig sy'n cael ei wneud ar reoli safleoedd ystlumod ac nid oes unrhyw waith yn cael ei wneud ar ffwlbartiaid yn 2011. Y prif brosiectau fydd Beacons for Bats a'r prosiect Mammals Interreg.

**PG1 – awgrymiad y dylai asiantaethau statudol gael ymweliad NERC**

**2. Diweddariad ar Brosesau CGB (Tracey Lovering yn bresennol)**

Gofynnwyd i Grwpiau Ecosystemau roi diweddariad blynyddol (papur wedi'i gylchredeg i FfGBMC cyn y cyfarfod). Mae angen i grwpiau (gan gynnwys FfGBMC) fwydo problemau sy'n atal cyflwyno yn ôl i TL. Mae hyn yn cynnwys ailadrodd pwyntiau blaenorol os nad oes unrhyw gynnydd amlwg. Bydd TL yn eu hanfon ymlaen at y grŵp polisi neu eraill fel y bo'n briodol. Bydd pobl allweddol o fewn y Grwpiau Ecosystemau'n cael eu penodi i weithio'n uniongyrchol â LlCC i ddatrys materion polisi. Anogir aelodau'r grŵp i edrych yn graff ar y diagram corryn sy'n amlinellu llwyddiannau a methiannau hyd yma.

**PG2 – TL i gylchredeg 'diagram corryn' cyflwyno CGB**

Mae PBC wedi bod yn annog prifysgolion yng Nghymru i gymryd rhan yn gynyddol yn y broses CGB. Cysylltodd JM â Mike Bruford o Brifysgol Caerdydd sy'n cyflawni prosiect geneteg mamaliaid. Mae'n awyddus i gysylltu â grwpiau mamaliaid a bydd yn mynychu cyfarfod FfGBMC yn y dyfodol.

Mae'n bosib y bydd modd i FfGBMC gael tudalen ar wefan PBC, er y gall fod angen i ddogfennau gael eu cyfieithu. Cytunwyd y dylid cylchredeg diweddariadau partner i gysylltiadau CGBLl o hyd. Dylid ychwanegu nodyn at frig y dudalen i egluro mai diweddariad anffurfiol ydyw. Dylai diweddariadau gynnwys dolenni gwe neu gyswllt er mwyn i bobl ddod o hyd i wybodaeth ychwanegol.

Mae TL yn ymwneud â threfnu ymweliadau NERC blynyddol lle mae WAG/PBC yn ymweld ag awdurdodau lleol i adolygu camau gweithredu CGB a gwaith eiriolwyr bioamrywiaeth (cynghorydd awdurdod lleol neu gyfwerth sy'n gyfrifol am hyrwyddo bioamrywiaeth ar draws yr awdurdod).

Ymgysylltu ag CGBLl – argymhellir bod yr holl grwpiau'n adnabod camau gweithredu â blaenoriaeth ar gyfer pob CGBLl. Cytunwyd y dylai FfGBMC estyn yr ymarfer blaenoriaethu presennol i gynnwys 3 cham gweithredu uchaf â blaenoriaeth ar gyfer mamaliaid ar gyfer pob CGBLl. Gweler isod.

Gofynnodd TL fod y grŵp yn cytuno, ar ôl pob cyfarfod, ar y tri phwynt gweithredu neu benderfyniad pwysicaf/pennaf yn sgil y cyfarfod a'u cyfathrebu o gwmpas PBC.

**PG3 – JM LHa i gytuno ar lwybr cyfathrebu effeithiol i CGBLl gyda Sean McHugh a rhoi cofnodion a chytundebau partner ar wefan PBC.**
**PG4 – JM LHa i adnabod cyswllt CGBLl allweddol sy'n fodlon cynrychioli CGBLl Cymru mewn cyfarfodydd FfGBMC.**

### Cyfarfod y Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau (GARh) - 16 Chwefror 2011

- BARS – trafodaeth ar addasrwydd BARS ar gyfer y math o goladu data y mae ei angen ar arbenigwyr rhywogaethau. Mae angen cyflawni dadansoddiad pellach o'r wybodaeth.
- Ariannu Amgylchedd Cymru – bydd Steve Bladwell yn anfon nodyn i PBC gyda sylwadau ar y broses ymgeisio ddiweddar. Ymysg y ceisiadau mamaliaid a wnaed i Amgylchedd Cymru oedd:
  - Minc ar Ynys Môn gan Fenter Môn
  - Ystlumod du – YCY

- Habitat Challenge Fund – mae'n bosib y bydd ariannu ar gael gan CCGC ar gyfer gwaith ar gynefinoedd, gan gynnwys gwaith y bydd rhywogaethau'n elwa ohono.
- Prosiect ar raddfa tirwedd – bydd GARh yn adolygu prosiect Future Scapes RSPB ‘the Three Rivers’ i fwrw golwg ar gyfleoedd ar gyfer cydweithio ar draws tacsa yn ardal Sir Gâr.
- Ymarfer blaenoriaethu GARh – roedd LH wedi anfon rhestr ddrafft o gamau gweithredu â blaenoriaeth i Reg Thorpe yn RSPB yn seiliedig ar y drafodaeth yn y cyfarfod FfGBMC diwethaf. Fodd bynnag, mae'r grŵp eisiau ystyried prosiectau â blaenoriaeth yn hytrach na chamau gweithredu. Bydd Reg yn coladu'r holl flaenoriaethau tacsa i gael eu trafod a'u blaenoriaethu ymhellach yn y cyfarfod GARh nesaf.
  Cytunwyd y dylai FfGBMC adnabod prosiectau â blaenoriaeth o dan eitem 6 yr agenda.

**3. Fframwaith Amgylcheddol Naturiol (FfAN)**
Mae gwaith yn mynd yn ei flaen ar y 3 ffrwd gwaith. Mae peth gwaith yn mynd yn ei flaen o fewn CCGC i edrych ar hyn sy'n ffurfio 'ecosystem iach' gan gynnwys effeithiau prosesau a'r gwasanaeth y gall y cyfryw ecosystemau ei roi. Mae coetiroedd a morydau'n cael eu defnyddio fel astudiaethau achos.

Ceir pryderon nad yw rhywogaethau a chynefinoedd yn cael eu hystyried yn briodol yn y FfAN.

**4. Glastir**
Mae Elfen a Dargedir Glastir yn destun adolygiad ar hyn o bryd.
Mae CCC yn datblygu cynigion ar gyfer elfen coetiroedd Glastir.
Gofynnwyd i Jean a Liz helpu gyda hyfforddiant i reolwyr contractau.

**5. Diweddariadau prosiect**
Cylchredwyd diweddariadau aelodau'r prosiect FfGBMC cyn y cyfarfod.

Adroddodd Adrian Lloyd-Jones cyn y cyfarfod fod yr adroddiad ar afancod bellach wedi'i gwblhau ac y caiff ei anfon yn fuan at y Gweinidogion Amgylchedd a Materion Gwledig. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi maes o law ynghyd ag ymarfer ymgynghori cyhoeddus ar ddalgylchoedd posib ar gyfer ailgyflwyno.

**6. Cynlluniau Gweithredu Mamaliaid**
Mae’r gwaith o ddrafftio cynlluniau gweithredu’n mynd yn ei flaen. Dylai’r adran ar 'roi camau gweithredu ar waith' ddisgrifio sut y dylid rhoi pob cam gweithredu ar waith ac nid unrhyw rwystrau i roi ar waith neu broblemau.
Mynegodd HS bryderon ynghylch rhai o'r targedau a chamau gweithredu. Cytunwyd y byddai'r rhain yn cael eu hadolygu yn y cyfarfod ym mis Hydref.

Trafodwyd a chytunwyd ar y prosiectau â blaenoriaeth a ganlyn. Roedd y drafodaeth yn seiliedig ar y blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod diwethaf.

Arolwg Pathewod o Geredigion

Llygod y dŵr – rheolaeth ar finc ar lefel y dalgylch yw'r flaenoriaeth bennaf trwy brosiect strategol a gydlynir yn briodol gan ddefnyddio rafftiau mincod. Gallai ariannu fod yn anodd ond gallai datblygu prosiect Interreg fod yn un opsiwn os yw'n bosib dod o hyd i ariannu a phartner o Iwerddon sydd am ymdrin â rhywogaethau anfrodorol ymwthiol. Y rhanbarthau allweddol yw Ynys Môn, Llŷn, Ceredigion (blaenddyfroedd Pumlumon a Gwy).

Byddai gan CGBLl rôl wrth roi ar waith yn y fan a'r lle gan gynnwys sefydlu hyfforddiant a diogelu safleoedd allweddol.
Mae'n bwysig cwblhau'r strategaethau llygod y dŵr Cymru a Rhanbarthol.
Mae angen gwneud dolen i'r grŵp INNS (Rhywogaethau Anfrodorol Ymwthiol)
**PG5 JM/RS i ymchwilio i gyfleoedd Interreg ar gyfer ariannu rheolaeth strategol ar finc.**

Ystlumod Du/Bechstein – mae SL wedi ymgeisio i Amgylchedd Cymru am ariannu ar gyfer gwaith ar farbastelod yng ngorllewin Cymru ac yn flaenorol roedd gan VWT brosiect i adnabod coetiroedd gydag ystlumod du. Awgrymwyd y gellid defnyddio dadansoddiad ffactor niche Matt Zeale i adnabod coetiroedd ystlumod du posib i grwpiau ystlumod lleol eu harolygu. Ar ôl i ystlumod du gael eu lleoli gan ddefnyddio synwyryddion ystlumod, gellid cyflawni gwaith maglu i chwilio am ystlumod coetir prin eraill megis ystlumod Bechstein - (mae gan ystlumod du a Bechstein ofynion coetir tebyg) a Myotis alcaothoe.
Byddai prosiect ystlumod coetir prin yn gyfle da i gynnwys gwirfoddolwyr, a fyddai'n addas ar gyfer ariannu gan Amgylchedd Cymru.
Mae angen creu cyswllt â'r Grŵp Ecosystemau Coetiroedd oherwydd materion rheoli coetiroedd.
**PG6 HS/JM/SL i ddatblygu syniadau ar gyfer cam cyntaf prosiect ystlumod coetir prin.**

Ystlumod trwyn pedol lleiaf – nid oedd yn bosib cael ariannu ar gyfer y prosiect Landscapes for Lessers gan HLF ond mae gweithdy GIS yn cael ei gynnal ar 16 Mawrth i edrych ar fodel addasrwydd cynefinoedd a ddatblygwyd gan BIS a sut y gellid cyflwyno hwn a'i ddefnyddio'n rhanbarthol.

Llygod y cynhaeaf – mae gwaith arolwg yn flaenoriaeth uchel. Gellid hyfforddi gwirfoddolwyr i wneud gwaith arolwg, felly byddai angen ariannu'n bennaf ar gyfer treuliau gwirfoddolwyr. Bydd y prosiect MISE yn gallu cydlynu gwaith yn yr ardaloedd Interreg a datblygu pecyn arolwg llygod y cynhaeaf ar gyfer gwirfoddolwyr. KW yn fodlon hyrwyddo arolygon llygod y cynhaeaf mewn ardaloedd CGBLl eraill. Mae angen creu cysylltiadau â'r Grŵp Ecosystemau Glaswelltir i adnabod glaswelltir garw (a hefyd y Grŵp Ecosystemau Tir Fferm). Mae posibilrwydd y gallai eraill megis Sw Caer redeg cyrsiau hyfforddi mewn ardaloedd nad ydynt yn Interreg. Mae angen i'r pecyn arolwg fod yn barod ar gyfer tymor arolwg misoedd Hydref a Thachwedd.

Gwiwerod coch – y cam gweithredu â blaenoriaeth yw paratoi cynlluniau rheoli ar gyfer Safleoedd Ffocal. Mae rheoli gwiwerod llwyd hefyd yn flaenoriaeth uchel, er y gellir ymdrin â hyn yn y cynlluniau rheoli. Mae ariannu ar gyfer rheoli gwiwerod

llwyd yn parhau'n broblem. Bydd LH yn cynghori CCC ar elfen rheoli gwiwerod llwyd elfen coetiroedd Glastir. Er hynny, mae Glastir yn annhebygol o alluogi rheolaeth ym mhob coetir. Mae'n debygol y bydd angen o hyd am brosiect rheoli gwiwerod llwyd, efallai fel rhan o'r prosiect Interreg ar finc a drafodwyd uchod.

<u>Prosiectau posib eraill</u>
Rhyngweithio ystlumod trwyn pedol mwyaf a thrwyn pedol lleiaf. Nododd HS bryderon ynghylch YPM yn disodli YPLl pan fyddant yn symud i glwydi yn yr haf. Mae peth data'n cael ei goladu ar ddosbarthiad trwy brosiect cysylltedd CCGC.

Gwrychoedd ar gyfer pathewod - yn gwella cysylltedd o fewn y dirwedd trwy weithio gyda pherchnogion tir i annog gwell rheolaeth ar wrychoedd a sefydlu gwrychoedd newydd. Byddai o fudd i rywogaethau eraill hefyd.

Mae'n bosib y bydd VWT yn trefnu gweithdy pathewod yng Nghymru.
**PG7 – HS i anfon manylion y gweithdy pathewod at LHa**

ME – mae angen creu cysylltiadau rhwng y rhywogaethau â blaenoriaeth a Nwyddau a Gwasanaethau Ecosystemau, yn enwedig gan y gallai hyn helpu wrth gyflwyno achos i LlCC am ariannu cadwraeth rhywogaethau. Er y cytunwyd ar hyn, teimlwyd hefyd fod angen cydnabod pwysigrwydd rhywogaethau yn eu rhinwedd eu hunain.

**PG8 – LH/JM i lunio rhestr o brosiectau, cylchredeg i FfGBMC am sylwadau ac yna anfon ymlaen at GARh.**
**PG9 – Arweinwyr Rhywogaethau i siarad ag Arweinwyr Gweithredu a phawb i edrych ar gamau eraill ar y daenlen targedau/camau gweithredu i adnabod prosiectau eraill a all fod yn barod i fynd wrth i gyfleoedd ariannu godi. Mae angen cyflwyno camau gweithredu o hyd. Sut?**

Awgrymodd ME y byddai'n ddefnyddiol cyflawni gwaith mapio i adnabod ardaloedd allweddol yn lleol i wella cysylltedd.

Adnabod camau gweithredu â blaenoriaeth  ar gyfer ardaloedd CGBLl unigol (gweler 2 uchod - defnyddio'r grŵp Tasg a Gorffen
**PG10 – JM, LH a KW i ffurfio Grŵp Tasg a Gorffen i adnabod camau gweithredu â blaenoriaeth ar gyfer CGBLl. Gwahoddir unrhyw un arall i ymuno.**

**7. Bwletin Cynnydd Blynyddol y rhaglen waith**
Adnabu adolygiad byr o'r rhaglen waith ychydig o ddiwygiadau neu feysydd lle mae angen gwneud gwaith e.e. yr angen am gynnwys adolygiad parhaus o brosiectau â blaenoriaeth.

ME i greu cyswllt â'r grŵp INNS parthed gwaith anfrodorol.

**PG11 - JM i ddrafftio adroddiad ar waith 2010/11 ar gyfer y cyfarfod nesaf.**

**8. Cofnodion a phwyntiau gweithredu o'r cyfarfod ar 20 Hydref 2010**.
Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau ar y cofnodion.

| | Camau Gweithredu o'r cyfarfod ar 20 Hydref 2010 | Gan bwy | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| 1 | Gofyn i Ysgrifenyddiaeth PBC Sean McHugh anfon cofnodion FfGBMC at swyddogion CGBLl. | LH/JM | Ar waith - mae angen cytuno ar y mecanwaith gorau ar gyfer lledaenu |
| 2 | Restru cynrychiolwyr o grwpiau'r DU a gofyn am ddiweddariadau ysgrifenedig ar gyfer y cyfarfod hwn | JM | Wedi'i gwblhau, ond bydd angen iddo barhau o dan adolygiad |
| 3 | Cylchredeg ymateb ARC i'r FfAN a hefyd yr ymgynghoriad bioamrywiaeth Ewrop gyfan | ME | Cario drosodd |
| 4 | Anfon manylion cyswllt pysgodfeydd Yr Alban ar gyfer RP/AL-J. | LH/JM | Wedi'i Gwblhau |
| 5 | Cwblhau rhestr aelodaeth FfGBMC | LH/JM | Wedi'i Gwblhau |
| 6 | Pawb i anfon unrhyw ddiweddariadau nei ddiwygiadau ychwanegol at LH erbyn 1 Tachwedd, ac yna LH i anfon diweddariadau at Sean McHugh i'w dosbarthu i CGBLl | PAWB<br><br>LH | Wedi'i Gwblhau |
| 7 | Cylchredeg cynllun i Arweinwyr Gweithredu a Rhywogaethau (egluro'r Arweinydd Gweithredu yn y tabl) a rhestru'r Arweiniad Rhywogaethau. | LH | Wedi'i Gwblhau |
| 8 | Arweinwyr Gweithredu i anelu at gwblhau rhai pellach cyn y cyfarfod GARh i'w hanfon allan erbyn 15 Tachwedd | Arweinwyr Gweithredu | Parhaus |
| 9 | Siarad â Steve Bladwell parthed amserlen ar gyfer cyflwyno camau gweithredu â blaenoriaeth | LH | Wedi'i Gwblhau - camau gweithredu drafft wedi'u cyflwyno. Mae angen prosiectau â blaenoriaeth |

**9. Unrhyw fusnes arall**
Dim byd

**10. Dyddiad y cyfarfod nesaf**
Dydd Llun 20 Mehefin 2011 – MISE a phrosiect geneteg Prifysgol Cymru
Dydd Mercher 12 Hydref 2011 – adolygu targedau/camau gweithredu

**Negeseuon Allweddol o'r cyfarfod**
1. Llunio rhestr o brosiectau â blaenoriaeth.
2. Bydd rhestr awgrymedig o rywogaethau/camau gweithredu â blaenoriaeth ar gyfer pob CGBLl yng Nghymru'n cael ei chynhyrchu.
3. Pryderon ynghylch gallu rhai arweinwyr rhywogaethau i gyflwyno, yn enwedig AyrAC gan mai Canlyniad 21 yw eu ffocws bellach. Argymhellwn fod ymweliadau NERC yn cael eu cymhwyso i asiantaethau statudol.